Mae'r Ymddiriedolaeth Garbon yn gwmni annibynnol nid-er-elw, a sefydlwyd gan lywodraeth y Deyrnas Unedig yn 2001, gyda'r genhadaeth o gyflymu'r symudiad at economi garbon isel. Rydym yn cynnig cymorth arbenigol i helpu'r sector busnes a'r sector cyhoeddus yn y DU i leihau allyriadau carbon, i arbed ynni ac i fasnacheiddio technolegau carbon isel. Trwy hybu gweithgarwch carbon isel, rydym yn cyfrannu at dargedau allweddol o DU o sicrhau llai o allyriadau carbon, datblygu busnesau carbon isel, diogelu ffynonellau ynni a chreu swyddi cysylltiedig.

Ar hyn o bryd, caiff yr Ymddiriedolaeth Garbon ei hariannu'n bennaf gan yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd; Llywodraeth yr Alban; Llywodraeth Cynulliad Cymru; Invest Northern Ireland; Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig; yr Adran Drafnidiaeth; a'r Swyddfa Dramor a Chymanwlad.

Ni yw'r prif gorff yn y DU sy'n mynd i'r afael â'r angen i fusnesau a'r sector cyhoeddus wneud synnwyr busnes o newid yn yr hinsawdd ac mae gennym swyddfeydd yn Llundain, Tredomen (Ystrad Mynach), Glasgow a Belfast, a Chanolfan Cynghori'r Cyhoedd yn Eynsham, Swydd Rydychen.

Rydym yn gweithio i ostwng allyriadau carbon trwy gynnig gwybodaeth a chyngor arbenigol, diduedd i fusnesau a chyrff yn y sector cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig (yn bennaf). Gwnawn hyn trwy wybodaeth ac offer ar ein gwefan, cymorth dros y ffôn, cyhoeddiadau, gweithdai arbed carbon, arolygon carbon, gwasanaethau rheoli carbon i fusnesau mawr a chyrff sector cyhoeddus, a chyngor ar ddylunio adeiladau. Caiff ein Canolfan Gynghori a'n rhwydwaith o Reolwyr Cyfrifon eu cefnogi gan gronfa o ymgynghorwyr technegol yn y DU sy'n sicrhau bod yr wybodaeth a'r arweiniad a roddir i'n cwsmeriaid yn gywir ac wedi'u paratoi'n arbennig ar gyfer anghenion eu busnes. Gwneir y cysylltiad cychwynol trwy ein llinell gynghori rhadffôn neu ein gwefan.

Rydym hefyd yn cynnig cymorth ariannol i helpu sefydliadau i oresgyn y rhwystrau ariannol sy'n eu hatal rhag cymryd camau i arbed ynni. Rydym yn cynnig benthyciadau di-log i BBaChau er mwyn arbed ynni, lwfansau cyfalaf gwell ar gyfer offer arbed ynni ac rydym yn ariannu Salix Finance Limited i roi cymorth ariannol i'r sector cyhoeddus. Mae Salix Finance yn annibynnol ar yr Ymddiriedolaeth Garbon, yn cael ei reoli'n annibynnol ac ar wahân, ac nid yw'n is-gwmni.

Rydym yn pennu safonau ar gyfer gostwng allyriadau carbon trwy'r Label Gostwng Carbon a Safon yr Ymddiriedolaeth Garbon.

Rydym hefyd yn gweithio i ostwng allyriadau carbon yn y dyfodol gan agor marchnadoedd trwy fod yn graff a dadansoddi, a datblygu mentrau carbon isel a phrosiectau cyflymu technoleg; trwy ddefnyddio gwasanaethau deor busnesau, grantiau ymchwil gymwysedig a phrosiectau cyflymu ymchwil i fasnacheiddio technoleg; a thrwy wneud buddsoddiadau cyfalaf menter mewn busnesau technoleg lân sydd newydd eu sefydlu.

Yn Llundain y mae ein prif swyddfa ac mae gennym swyddfa bob un hefyd yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Rydym yn cyflogi cyfanswm o tua 113 o bobl yn y pedair swyddfa, y rhan fwyaf ohonynt yn Llundain. Mae wyth o bobl yn gweithio yn swyddfa Caerdydd.

*Ein gallu presennol i gynnig gwasanaethau Cymraeg*

Ar hyn o bryd, nid yw swyddfa Cymru'n gallu darparu llawer o wasanaethau Cymraeg ond bydd hyn yn datblygu yn unol â'r cynllun (a'r amserlen sy'n rhan ohono). Dyma'r sefyllfa ar hyn o bryd:-

- Ar brif wefan yr Ymddiriedolaeth Garbon ar gyfer y DU, ceir fersiynau Cymraeg o:-
  - Posteri Arbed Ynni – cyfres o 10;
  - Cyfres sticeri ymwybyddiaeth gweithwyr;
  - Cyfres posteri ymwybyddiaeth gweithwyr;
  - Sticeri mawr ar gyfer offer cyffredinol yn y swyddfa (PFL269);
  - Sticeri bach ar gyfer offer cyffredinol yn y swyddfa (PFL270);
  - Nifer o gyhoeddiadau ac adroddiadau – e.e. Allyriannau Carbon Deuocsid a Nwyon Tŷ Gwydr Eraill yng Nghymru (CTC725); Egnioli Cymru (NWL032).
- Mae'r arwyddion mewn arddangosfeydd yng Nghymru yn ddwyieithog.

Yn adrannau nesaf y cynllun, nodir y camau y mae'r Ymddiriedolaeth Garbon yn eu cymryd a'r ddarpariaeth y bydd yn ei gwneud yn unol â'r cynllun a'r amserlen i gyflawni ei hymrwymadau i ddarparu gwasanaethau Cymraeg i'r cyhoedd yng Nghymru.

## **2. Cynllunio a Chyflenwi Gwasanaethau**

### **2.1 Polisiâu, Deddfwriaeth a Mentrau**

**2.1.1** Pan fydd yr Ymddiriedolaeth Garbon yn cynllunio ac yn ffurfio polisiâu neu fentrau newydd yng Nghymru sy'n dod o fewn cylch y Cynllun hwn, bydd yn sicrhau eu bod yn cyflawni'r ymrwymadau a roddir yn y Cynllun. Trwy hynny, bydd yr Ymddiriedolaeth Garbon yn sicrhau bod y polisiâu a'r mentrau newydd hynny yn hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg ac yn symud y sefydliad yn nes at weithredu egwyddor cydraddoldeb. Bydd yr Ymddiriedolaeth Garbon yn sicrhau bod mesurau'r cynllun hwn yn cael eu cynnwys, lle bo'n briodol, mewn polisiâu a mentrau newydd pan gânt eu gweithredu.

**2.1.2** Bydd yr Ymddiriedolaeth Garbon yn ymgynghori â Bwrdd yr Iaith Gymraeg cyn llunio unrhyw bolisiâu neu fentrau newydd sy'n debygol o alw am newid cynllun iaith yr Ymddiriedolaeth Garbon.

**2.1.3** Bydd staff sy'n paratoi ac yn gweithredu polisiau a mentrau newydd yn cael gwybod am ofynion Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 a'r Cynllun Iaith Gymraeg. Rhoddir canllawiau i staff am effeithiau tebygol bwriadau newydd ar y Cynllun a'r camau sy'n angenrheidiol er mwyn sicrhau y cydymffurfir â'r mesurau hyn. Caiff y canllawiau hyn eu dosbarthu yn gynnar yn ein rhaglen ar gyfer gweithredu'r cynllun.

**2.1.4** Mae Cyfarwyddwyr yr Ymddiriedolaeth Garbon yn gwybod yn iawn am ofynion y cynllun hwn a byddant yn sicrhau bod y gofynion yn cael eu hadlewyrchu yn y gwasanaethau y mae'r Ymddiriedolaeth Garbon (a'i brif gontractwyr sy'n darparu gwasanaethau o'r fath yn uniongyrchol i'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg) yn eu darparu i gwsmeriaid yng Nghymru. Byddant yn sicrhau hefyd bod yr holl weithwyr yn cael gwybod am ofynion y cynllun.

**2.1.5** Caiff y cynllun ei fonitro gan Grŵp Llywio Iaith Gymraeg yr Ymddiriedolaeth Garbon o dan gadeiryddiaeth y Rheolwr yng Nghymru. Bydd y Grŵp Llywio'n gweithio i sicrhau bod perchenogaeth y cynllun yn cael ei rhannu trwy'r Ymddiriedolaeth Garbon i gyd. Bydd y Swyddog Gweithredu yng Nghymru (neu rywun arall a benodir o bryd i'w gilydd gan y Rheolwr yng Nghymru) yn gyfrifol am weithredu'r cynllun o ddydd i ddydd. Bydd dyletswyddau'r swydd hon yn cynnwys ymateb i ymholiadau gan y staff neu aelodau'r cyhoedd am y cynllun ac am ddarparu gwasanaethau yn y Gymraeg yn unol â'r cynllun.

## **2.2 Cyflenwi Gwasanaethau**

**2.2.1** Mae'r gwaith o gyflenwi gwasanaethau'n amrywio. Caiff rhai gwasanaethau eu darparu'n uniongyrchol i'r cwsmer a chaiff eraill eu darparu o'r swyddfeydd yn Llundain, y swyddfeydd yn y gwledydd a ddatganolwyd neu'r Ganolfan Cynghori Cwsmeriaid yn Swydd Rydychen.

**2.2.2** Nod yr Ymddiriedolaeth Garbon yw darparu gwasanaeth cyson a dibynadwy yng Nghymru ar gyfer siaradwyr Cymraeg yn yr adrannau a'r meysydd gwasanaeth perthnasol sy'n ymwneud â'r cyhoedd. Fodd bynnag, er ein bod wedi ymrwymo i'r nod hwn, os yw gwasanaethau'n rhai arbenigol neu dechnegol iawn, efallai y bydd yn anodd neu fwy neu lai'n amhosibl ei gyflawni yn ystod oes y cynllun hwn. Yn unol â Deddf yr Iaith Gymraeg a'r cynllun hwn ac, fel y nodir yn fwy manwl yn Eitem 5, caiff y swyddfeydd yng Nghymru eu staffio'n briodol fel y gallant ateb galw a dyheadau cwsmeriaid sy'n dymuno cyfathrebu yn y Gymraeg. I ddechrau, bydd y cwmni'n trefnu i gwsmeriaid Cymraeg eu hiaith drafod gwasanaethau perthnasol yn y Gymraeg naill ai dros y ffôn neu trwy wneud trefniant i gyfarfod pan na fydd neb sy'n siarad

Cymraeg ar gael. Gan symud ymlaen, bydd y cwmni'n gweithredu'r prosesau a nodir yn y cynllun hwn (ac yn unol ag Eitem 5) er mwyn dod yn fwy abl i fodloni dyheadau cwsmeriaid sy'n dymuno cyfathrebu yn y Gymraeg.

**2.2.3** Bwriad yr Ymddiriedolaeth Garbon yw darparu gwasanaethau Cymraeg yng Nghymru. Fodd bynnag, o ystyried natur dechnegol arbennig llawer o'i gwasanaethau a natur ei chwsmeriaid a'r sectorau y maent yn gweithio ynddynt, ni fydd yn ymarferol iddi wneud hynny gyda'r gwasanaethau sydd o natur dechnegol arbennig. Os daw'n ymarferol i'r Ymddiriedolaeth Garbon wneud hynny yn y dyfodol, bydd yn darparu'r gwasanaethau hynny yn y Gymraeg. Bydd gweithwyr di-Gymraeg yn cael gwybodaeth am y gwasanaethau sydd ar gael yn y Gymraeg a sut y mae manteisio arnynt. Bydd yr holl weithwyr yn cael gwybod am y cynllun, yr ymrwymadau sydd ynddo, a'r systemau, y gweithdrefnau a'r gwasanaethau sydd ar gael i gyflawni'r ymrwymadau hynny. Bydd y gweithwyr yn cael gwybod am y cynllun trwy'r holl ddulliau cyfathrebu arferol, yn cynnwys cyfarfodydd timau a chylchlythyron staff.

**2.2.4** Mae'r Ymddiriedolaeth Garbon yn prynu llawer o'i gwasanaethau i mewn, yn cynnwys y cyngor o-ddydd-i-ddydd a roddir i'w chwsmeriaid. Bydd yr Ymddiriedolaeth Garbon yn disgwyl i'w chontractwyr gydymffurfio â'r cynllun os ydynt yn cynnig gwasanaethau cwsmeriaid yng Nghymru yn uniongyrchol i'r cyhoedd Cymraeg eu hiaith.

## **2.3 Safon y Gwasanaeth yn y Gymraeg**

**2.3.1** Mae'r Ymddiriedolaeth Garbon yn croesawu pobl i gysylltu â hi yn y Gymraeg neu'r Saesneg ac y mae'n ceisio cynnig safon gwasanaeth yr un mor effeithiol yn y ddwy iaith yng Nghymru, fel y nodir yn y cynllun hwn. Nodir yr egwyddor honno ar wefan yr Ymddiriedolaeth Garbon ac mewn dogfennau allweddol fel adolygiadau blynyddol.

**2.3.2** Mae'n nod gan yr Ymddiriedolaeth Garbon i ddarparu gwasanaethau a gofal cwsmer o safon uchel ym mhob agwedd ar ei gwaith yn unol â'r ymrwymadau a nodir yn y cynllun hwn. Mae'r safonau gwasanaeth yn cael eu hadolygu'n rheolaidd a byddant yr un mor berthnasol i wasanaethau a ddarperir yn y Gymraeg ag yn y Saesneg.

## **3. Delio â'r Cyhoedd sy'n Siarad Cymraeg**



### **3.1. Cyfathrebu Ysgrifenedig**

**3.1.1** Yn unol â'r cynllun hwn, bydd yr Ymddiriedolaeth Garbon yn gweithio i sicrhau bod croeso i gwsmeriaid ohebu â'r Ymddiriedolaeth Garbon yn y Gymraeg ynglŷn â'r gwasanaethau a ddarperir yng Nghymru a bod pobl sy'n ysgrifennu yn y Gymraeg yn cael ateb Cymraeg ar bapur swyddogol dwyieithog.

**3.1.2** Yn yr un modd, yn unol â'r cynllun, bydd yr Ymddiriedolaeth Garbon yn gweithio i sicrhau y bydd unrhyw ohebiaeth a anfonir at gwsmer o ganlyniad i gyfarfod a gynhaliwyd yn y Gymraeg, wyneb yn wyneb neu dros y ffôn, yn cael ei hanfon yn y Gymraeg (erbyn ail flwyddyn y cynllun). Bydd angen copi Saesneg o'r ohebiaeth hefyd ar gyfer defnydd mewnol er mwyn sicrhau cysondeb yn ein system CRM a sicrhau bod rheolwyr cyfrifon di-Gymraeg ledled y DU yn cael elwa ar yr wybodaeth sydd ynddi.

**3.1.3** Anfonir copi Saesneg o'r ohebiaeth at y derbynnydd os bydd yn gofyn am un (yn cynnwys os awgrymir yr hoffai'r derbynnydd gael copi Saesneg gan ei fod/bod wedi ysgrifennu at yr Ymddiriedolaeth Garbon yn y Gymraeg a'r Saesneg).

**3.1.4** Bydd yr Ymddiriedolaeth Garbon yn cadw rhestr o'r cwsmeriaid sy'n dymuno cael gohebiaeth Gymraeg.

**3.1.5** Er mwyn hwyluso'r gwaith o ohebu â chwsmeriaid yn y Gymraeg, bydd gan yr Ymddiriedolaeth Garbon restr o gyfieithwyr cymeradwy a bydd hon ar gael i'r gweithwyr.

**3.1.6** Bydd nodyn ar waelod papur ysgrifennu swyddogol swyddfa Cymru yn croesawu gohebiaeth trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg.

### **3.2 Cyfathrebu dros y Ffôn**

**3.2.1** Caiff cwsmeriaid eu cyfarch yn ddwyieithog gan y derbynnydd sy'n ateb y ffôn yn swyddfa Cymru. Bydd croeso i gwsmeriaid siarad Cymraeg â gweithwyr neu gynrychiolwyr perthnasol yn swyddfa Cymru wrth i ni ddatblygu'r gallu i wneud hynny yn unol â'r cynllun hwn. Ar hyn o bryd, nid oes gennym gyfleusterau i siarad Cymraeg dros y ffôn. Fodd bynnag, erbyn diwedd blwyddyn 3 yn y cynllun, bydd gennym feicro-wefan Gymraeg yn nodi rhif ffôn y gellir ei alw i drafod y

gwasanaethau a gynigiwn yng Nghymru yn y Gymraeg. Erbyn hynny hefyd, byddwn wedi gweithredu'r cynllun fel bod gennym rhywun ar gael i siarad Cymraeg. Byddwn yn sicrhau bod gennym ddigon o siaradwyr Cymraeg ar gael ar gyfer nifer y cwsmeriaid sy'n dymuno trafod yn y Gymraeg.

**3.2.2** Yn y cyfnod cyn bod siaradwr/siaradwyr Cymraeg ar gael yn swyddfa Cymru a/neu'r rhif ffôn perthnasol wedi'i gyhoeddi ar y feicro-wefan Gymraeg (yn unol â'r cynllun), os nad oes siaradwr Cymraeg ar gael i ddelio â'r cwsmer ar unwaith a bod trefniadau wedi'u gwneud i'w ffonio nôl, dylai'r cwsmer deimlo bod pob ymdrech wedi'i gwneud i fodloni'r cais gwreiddiol.

**3.2.3** Bydd y staff yn cael canllawiau penodol (yn unol â'r cynllun hwn) ar gyfer trafod galwadau ffôn gan bobl sy'n siarad Cymraeg, yn cynnwys manylion gweithwyr sy'n gallu delio â galwadau Cymraeg.

**3.2.4** Nid yw'n ymarferol i'r staff yn ein swyddfeydd y tu allan i Gymru gynnal sgysiau ffôn yn y Gymraeg.

**3.2.5** Gwneir trefniadau i sicrhau bod pobl sy'n ffonio'r Ganolfan Gynghori (yn Eynsham, Rhydychen ar hyn o bryd) yn gallu cael eu cyfeirio at rywun sy'n siarad Cymraeg (neu swyddfa Cymru) os dymunant. Os na fydd neb sy'n siarad Cymraeg ar gael ar y pryd, bydd y cwsmer yn cael galwad nôl yn nes ymlaen pan fydd rhywun ar gael.

### **3.3 Cyfathrebu Wyneb yn Wyneb**

**3.3.1** Bydd croeso i gwsmeriaid sy'n dod i swyddfeydd yr Ymddiriedolaeth Garbon yng Nghymru drafod eu busnes yn y Gymraeg os dymunant. Ar hyn o bryd, nid yw'r Ymddiriedolaeth Garbon yn gallu darparu rhywun a all drafod busnes y cwsmeriaid hyn yn y Gymraeg ond, yn unol â'r cynllun, erbyn diwedd blwyddyn 4 o'r cynllun hwn, mae'r Ymddiriedolaeth Garbon wedi ymrwymo i wneud pob ymdrech i sicrhau presenoldeb gweithiwr sy'n siarad Cymraeg i ddelio ag ymholiadau Cymraeg yn y swyddfeydd hynny. Os bydd yr ymholiad yn ymwneud â mater na all y gweithiwr cyntaf ymdrin ag ef, gwneir pob ymdrech i ddod o hyd i weithiwr priodol naill ai yn y fan a'r lle neu dros y ffôn. Os na ellir gwneud hyn, rhoddir y cyfle i'r cwsmer drafod y mater yn Saesneg, neu gellir gwneud nodyn o ymholiad y cwsmer a'i basio i weithiwr perthnasol fel y gellir anfon ymateb ysgrifenedig wedi'i gyfieithu i'r Gymraeg at y cwsmer.

### **3.4 Cyfathrebu Electronig**

**3.4.1** Gall unrhyw un sy'n dymuno cysylltu â'r Ymddiriedolaeth Garbon yn y Gymraeg wneud hynny trwy e-bost (bydd manylion cysylltu priodol ar y feicro-wefan Gymraeg) ac fe gaiff ateb Cymraeg yn unol â'r egwyddorion a amlinellir uchod.

**3.4.2** Bydd dogfennau, yn cynnwys adroddiadau, taflenni a phosteri Cymraeg ar gael i'w lawrlwytho ar ffurf pdf o feicro-wefan Cymru.

## **5.5 Cyfarfodydd Cyhoeddus**

**3.5.1** Ar yr adegau pan gynhelir cyfarfodydd cyhoeddus lleol yng Nghymru, bydd trefnwyr y cyfarfod yn asesu'r angen am wasanaethau dwyieithog ar sail proffil ieithyddol y bobl sydd wedi cofrestru i ddod a'r wybodaeth sydd gan y trefnwyr am y rhai fydd yn y cyfarfod. Wrth roi cyhoeddusrwydd i'r cyfarfod, bydd y trefnwyr yn gofyn i'r sawl sy'n dod roi gwybod iddynt ymlaen llaw a fyddant am gyfrannu yn y Gymraeg. Lle bo'n glir ei bod yn briodol o dan yr amgylchiadau i ganiatáu i gyfraniadau gael eu gwneud yn y Gymraeg ac yn Saesneg, fe drefnir hynny.

## **4. Y Ddelwedd Gorfforaethol**

### **4.1 Wyneb Cyhoeddus y Cwmni**

**4.1.1** Bydd yr Ymddiriedolaeth Garbon yn mabwysiadu delwedd gorfforaethol ddwyieithog lawn yng Nghymru ac yn gweithredu o dan yr enw Carbon Trust / Ymddiriedolaeth Garbon. Bydd yn sicrhau bod yr holl bapur ysgrifennu swyddogol, y logos a'r slogans yn ddwyieithog.

**4.1.2** Bydd yr holl hysbysiadau cyffredinol a chyhoeddus a'r hysbysebion swyddi gwag a anfonir at y cyfryngau yng Nghymru yn ddwyieithog.

**4.1.3** Bydd y defnyddiau arddangos a gwybdoeth a ddefnyddir gan yr Ymddiriedolaeth Garbon mewn arddangosfeydd a digwyddiadau hyrwyddo yng Nghymru yn ddwyieithog neu, os nad yw hyn yn ymarferol, byddant ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae'r arwyddion mewn arddangosfeydd yn y Gymraeg a'r Saesneg.

**4.1.4** Mewn arddangosfeydd a sioeau yng Nghymru, bydd yr Ymddiriedolaeth Garbon yn sicrhau bod gweithiwr neu gynrychiolydd sy'n siarad Cymraeg ar gael (os nad yw'r bobl y disgwylir iddynt ddod wedi dweud nad oes angen hyn).

**4.1.5** Bydd yr arwyddion y tu allan i holl swyddfeydd yr Ymddiriedolaeth Garbon yng Nghymru yn ddwyieithog. Bydd yr arwyddion yn gyfartal o ran fformat, maint, eglurdeb ac amlygrwydd.

## **4.2 Cyhoeddi ac Argraffu Defnyddiau Cyhoeddus**

**4.2.1** Pan fydd swyddfa'r Ymddiriedolaeth Garbon yng Nghymru yn argraffu ac yn cyhoeddi defnyddiau yn neilltuol ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru, y drefn arferol yw bod y dogfennau hyn yn cael eu cyhoeddi yn y Gymraeg a'r Saesneg.

**4.2.2** Yn unol â'r cynllun hwn, bydd swyddfa'r Ymddiriedolaeth Garbon yng Nghymru yn gweithio (erbyn diwedd blwyddyn gyntaf y cynllun) i gyhoeddi dogfennau fel hyn yn ddwyieithog. Bydd y dogfennau hyn yn cynnwys dogfennau a gaiff eu hanfon at y cyhoedd yng Nghymru, neu y trefnir eu bod ar gael iddynt, ac sydd:-

- Yn rhoi gwybodaeth am wasanaethau'r Ymddiriedolaeth Garbon;
- Yn holi barn y cyhoedd trwy ymgynghori.

**4.2.3** Lle nad yw'n bosibl neu'n briodol i swyddfa'r Ymddiriedolaeth Garbon yng Nghymru gynhyrchu defnyddiau dwyieithog, caiff fersiynau Cymraeg a Saesneg eu paratoi ar wahân. Mewn achosion felly, bydd y ddwy fersiwn o'r un safon, cânt eu cyhoeddi ar yr un pryd a'u dosbarthu gyda'i gilydd, byddant yr un mor hygyrch a bydd neges arnynt yn dweud bod fersiwn Gymaeg/Saesneg ar gael hefyd.

**4.2.4** Bydd yr Ymddiriedolaeth Garbon yn talu sylw i'r cynllun hwn wrth baratoi cyhoeddiadau cyffredinol ar gyfer y DU. Ar y cyfan, ni fydd yn rhesymol ymarferol nac yn briodol o dan yr amgylchiadau i gyhoeddi cyhoeddiadau cyffredinol y DU yn y Gymraeg. Bydd y materion perthnasol y bydd yr Ymddiriedolaeth Garbon yn eu hystyried wrth baratoi defnyddiau i'w cyhoeddi yn cynnwys y meini prawf isod:

4.2.4.1 a fwriedir y defnydd ar gyfer cynulleidfa arbenigol a/neu ryngwladol;

4.2.4.2 beth yw'r angen y mae'r cyhoeddiad yn ceisio ymateb iddo, pa mor bwysig yw'r angen hwn a pha adnoddau (yn cynnwys y costau) sy'n angenrheidiol er mwyn ei gyhoeddi yn y Gymraeg a'r Saesneg (yn cynnwys cymhlethdod technegol y cyhoeddiad a/neu'r angen i'w ddiweddarau'n rheolaidd);

4.2.4.4 lle y caiff y cyhoeddiad ei gyhoeddi a pha mor eang y caiff ei ddosbarthu;

- 4.3.4.5 a yw'r cyhoeddiad wedi'i anelu at y cyhoedd yng Nghymru a natur a maint y gynulleidfa darged; ac
- 4.2.4.5 a oes cyfieithydd addas ar gael gyda digon o ddealltwriaeth dechnegeol i gyfieithu'r cyhoeddiad yn ddigon cywir (nid yw hyn yn debygol o godi'n aml).

**4.2.5** Pan godir tâl ar gwsmer am ddogfen, ni ddylai cost y ddogfen hon yn y Gymraeg neu'n ddwyieithog fod yn fwy na chost y fersiwn Saesneg gyfatebol.

### **4.3 Y Wefan**

**4.3.1** O'r dyddiad y daw'r cynllun hwn i rym, bydd gwefan yr Ymddiriedolaeth Garbon yn cynnwys fersiynau Cymraeg a Saesneg cyhoeddiadau lle caiff y cyhoeddiadau hynny eu cynhyrchu yn y Gymraeg fel y nodir uchod, yn ogystal â meicro-wefan Gymraeg. Bydd y feicro-wefan yn rhoi gwybodaeth am y gwasanaethau a ddarperir gan yr Ymddiriedolaeth Garbon.

**4.3.2** Pan gaiff cyhoeddiadau Cymraeg eu cynhyrchu yn y cyfnod ar ôl mis Awst 2013, cânt eu cyhoeddi ar y brif wefan hyd nes y bydd y feicro-wefan Gymraeg ar gael. Yn unol â threfniadau arferol yr Ymddiriedolaeth Garbon, caiff y cyhoeddiadau hyn eu dileu pan ânt yn hen. Caiff y feicro-wefan Gymraeg ei datblygu yn ystod y cyfnod hyd at fis Awst 2014. Rhoddir defnyddiau Cymraeg ac, efallai, rai Saesneg hefyd ar y wefan honno. Bydd "tudalennau glanio" ar gyfer yr Ymddiriedolaeth Garbon (Cymru) yn y Gymraeg a'r Saesneg ar gael ar y wefan erbyn mis Mehefin 2012.

**4.3.3** Wrth i'r gallu i gynnig rhagor o fanylion cysylltu neu wybodaeth neu wasanaethau yn y Gymraeg ddatblygu yn unol â'r cynllun, caiff y manylion a'r wybodaeth berthnasol eu hychwanegu at y wefan.

**4.3.5** Caiff cynnwys y feicro-wefan Gymraeg ei ddatblygu yn ystod y cyfnod cynllunio a gweithredu cyn ei lansio ym mis Awst 2014. Fodd bynnag, bydd y feicro-wefan yn cynnwys y pethau hyn, o leiaf:

- Hafan – yn esbonio'r Ymddiriedolaeth Garbon;
- Datganiad yn dweud bod yr Ymddiriedolaeth Garbon yn croesawu pobl i gysylltu â hi yn y Gymraeg neu'r Saesneg a'i bod yn ceisio cynnig gwasanaethau o'r un safon effeithiol yn y ddwy iaith yng Nghymru, fel y nodir yn y cynllun hwn;

- Tudalen yn cyflwyno'r cyfarwyddwyr perthnasol a manylion y drefn reoli;
- Tudalen gysylltiadau;
- Map o'r wefan;
- Tudalen ar gyfer digwyddiadau yng Nghymru;
- Disgrifiad o'r gwasanaethau, yn enwedig y rhai sydd ar gael yng Nghymru;
- Datganiad cyfreithiol;
- Polisi Preifatrwydd;
- Cyhoeddiadau Cymraeg; a
- Dolen i brif wefan yr Ymddiriedolaeth Garbon.

## **5. Gweithredu'r Cynllun**

### **5.1 Staffio**

**5.1.1** Mae'r Ymddiriedolaeth Garbon yn cydnabod bod angen cyflogi digon o weithwyr Cymraeg eu hiaith â sgiliau priodol fel y gall weithredu'r cynllun hwn. Mae hyn yn arbennig o wir am weithwyr sy'n dod i gysylltiad â chwsmeriaid yn rheolaidd a gweithwyr mewn sefydliadau sy'n agored i'r cyhoedd.

**5.1.2** Bydd yr Ymddiriedolaeth Garbon yn penderfynu ym mha leoedd, swyddi a swyddogaethau y mae'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol neu'n ddymunol a bydd yn sicrhau y gwneir penodiadau yn unol â hynny. Wrth benodi gweithwyr, bydd yr Ymddiriedolaeth Garbon yn sicrhau y gwneir y dewis yn deg ar sail profiad technegol neu brofiad y mae angen gwrthrychol amdano. O dan amgylchiadau lle nodwyd bod y gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol ar gyfer swydd benodol, caiff yr ymgeiswyr eu hasesu ar ansawdd eu sgiliau yn yr iaith Gymraeg a chânt eu dewis ar sail y sgiliau hynny, yn ogystal â'r sgiliau perthnasol eraill a gofynion cyfraith cyflogaeth. O dan amgylchiadau lle nodwyd bod y gallu i siarad Cymraeg yn ddymunol ar gyfer swydd benodol, rhoddir hyfforddiant priodol yn yr iaith Gymraeg yn ôl yr angen.

**5.1.3** Er mwyn hwyluso'r gwaith o gynnal y cynllun hwn, bydd adrannau adnoddau dynol yr Ymddiriedolaeth Garbon a'i chontractwyr yn cadw rhestrau, a gaiff eu hadolygu bob blwyddyn, o'r holl weithwyr sy'n gallu siarad Cymraeg a byddant yn sicrhau bod disgrifiadau swyddi yn y cyfryngau yn adlewyrchu anghenion y cynllun hwn.

### **5.2 Dysgu Cymraeg**

**5.2.1** Bydd yr Ymddiriedolaeth Garbon yn annog ac yn cefnogi aelodau o'r staff yn swyddfa Cymru sy'n dymuno dysgu Cymraeg neu wella eu Cymraeg a bydd yn annog gweithwyr sy'n siarad Cymraeg i ddefnyddio'r iaith pryd bynnag y bydd yn ymarferol.

**5.2.2** Bydd yr Ymddiriedolaeth Garbon yn cynnal asesiad o anghenion hyfforddi'r gweithwyr er mwyn canfod staff a fydd yn elwa ar raglenni hyfforddi, gyda chymorth ariannol ac yn amser gwaith, a sefydlwyd gan yr Ymddiriedolaeth Garbon gyda'r nod o:

- Helpu gweithwyr Cymraeg eu hiaith y mae angen iddynt ddatblygu eu sgiliau iaith i wneud eu gwaith;
- Sicrhau bod gan weithwyr Cymraeg eu hiaith y sgiliau gweinyddol, technegol neu weithredol y mae arnynt eu hangen er mwyn cynnig gwasanaeth Cymraeg i gwsmeriaid;
- Cyhoeddi gwybodaeth benodol ar agweddau o'r gwasanaethau a ddarperir;
- Datblygu sgiliau Cymraeg ymhlith y di-Gymraeg.

**5.2.3** Bydd yr Ymddiriedolaeth Garbon yn cyflwyno mesurau i fonitro cynnydd pobl sydd yn datblygu a/neu'n dysgu sgiliau Cymraeg a bydd adran adnoddau dynol yr Ymddiriedolaeth Garbon yn cadw rhestr o'r rhai sy'n siarad neu'n dysgu Cymraeg.

### **5.3 Gwasanaethau a Gyflenwir ar ran yr Ymddiriedolaeth Garbon gan ei Gcontractwyr**

**5.3.1** Bydd yr Ymddiriedolaeth Garbon yn sicrhau, trwy ei threfniadau contractio, bod contractwyr yn gweithredu holl elfennau perthnasol y cynllun wrth ddelio â chwsmeriaid neu'r cyhoedd yn gyffredinol.

**5.3.2** Gwneir darpariaeth i fonitro i ba raddau y mae'r Ymddiriedolaeth Garbon yn cydymffurfio â rhannau perthnasol y cynllun.

### **5.4 Cyfleusterau Cyfieithu**

**5.4.1** Bydd swyddfa'r cwmni yng Nghymru yn cadw:

- Rhestr o lefarwyr swyddogol a all gynrychioli'r cwmni trwy gyfrwng y Gymraeg;
- Rhestr o gyfieithwyr swyddogol sy'n cynnig gwasanaethau sydd ar gael i weithwyr wrth ddelio ag atebion i gwsmeriaid ac wrth baratoi defnyddiau i'w cyhoeddi;
- Rhestr o gyflenwyr offer cyfieithu ar y pryd i'w defnyddio mewn cyfarfodydd cyhoeddus;

- Cyfeiriadur cyfrifiadurol o eiriau ac ymadroddion swyddogol, technegol ac eraill a pharagraffau safonol mewn Cymraeg clir y gall gweithwyr eu defnyddio wrth ddelio â chwsmeriaid yn y Gymraeg.

## **6. Gweithredu a Monitro**

**6.1** Mae'r Cynllun hwn wedi'i gymeradwyo gan Gyfarwyddwyr Gweithredol yr Ymddiriedolaeth Garbon.

**6.2** Mae Cyfarwyddwyr yr Ymddiriedolaeth Garbon yn gwybod yn iawn am ofynion y cynllun a byddant yn sicrhau bod y gofynion yn cael eu hadlewyrchu yn y gwasanaethau y mae'r Ymddiriedolaeth Garbon a'i brif gontractwyr yn eu darparu i gwsmeriaid ar ran y cwmni.

**6.3** Caiff y cynllun ei fonitro gan Grŵp Llywio Iaith Gymraeg yr Ymddiriedolaeth Garbon o dan gadeiryddiaeth Rheolwr yr Ymddiriedolaeth Garbon yng Nghymru a bydd yn cynrychioli pob maes yn y busnes. Bydd y Grŵp Llywio yn cyfarfod bob chwe mis a bydd yn gyfrifol yn gyffredinol am gydgyssylltu holl weithgareddau'r cynllun ond bydd pob rheolwr yn gyfrifiol am weithredu'r agweddau hynny ar y cynllun a fydd yn berthnasol i'w maes nhw o'r busnes. Bydd y Swyddog Gweithredu yng Nghymru (neu rywun arall a benodir o bryd i'w gilydd gan Reolwr Cymru) yn gyfrifol am weithredu'r cynllun o ddydd i ddydd ac am ddelio ag ymholiadau.

**6.4** Bydd y Cyfarwyddwyr, trwy Grŵp Llywio'r Iaith Cymraeg, yn sicrhau bod yr holl weithwyr yn cael gwybod am ofynion y cynllun hwn, ac, yn neilltuol, bod yr holl Uwch Reolwyr yn cadw at ofynion y cynllun yn y meysydd gweithredu y maen nhw'n gyfrifol amdanynt. Bydd y gweithwyr yn cael cyfarwyddiadau ysgrifenedig, canllawiau a negeseuon eraill am ofynion y cynllun.

**6.5** Bydd Grŵp Llywio'r Iaith Gymraeg yn cynnal adolygiad parhaus o ddefnyddiau a gyhoeddir gan yr Ymddiriedolaeth Garbon, yn cynnwys taflenni, hysbysiadau, hysbysebion, datganiadau i'r wasg, eitemau mewn arddangosfeydd, trefniadau ar gyfer hyfforddiant yn y Gymraeg, penodi gweithwyr sy'n siarad Cymraeg, a rhestrau ohonynt, a chyfleusterau yn gyffredinol ar gyfer ymwneud â chwsmeriaid Cymraeg eu hiaith.

**6.6** Bydd y Grŵp Llywio yn paratoi adroddiad blynyddol (ar ffurf y cytunir arno gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg) a bydd yr Ymddiriedolaeth



Garbon yn ei gyflwyno i Fwrdd yr Iaith Gymraeg. Bydd yr adroddiad blynyddol yn cynnwys yr wybodaeth a ganlyn:

- y newyddion diweddaraf am gyflenwi'r cynllun gweithredu;
- copi o'r matrices asesu effaith a ddefnyddir i asesu effaith polisiau a mentrau newydd ar yr iaith Gymraeg (darperir hwn gyda'r adroddiad am y flwyddyn gyntaf yn unig);
- enghreifftiau o ddogfennau polisi neu fentrau newydd a gynhyrchwyd neu y bwriedir eu cynhyrchu ac sy'n prif-ffrydio'r iaith Gymraeg;
- manylion canran a nifer y staff dwyieithog sy'n gweithio yn swyddfa Cymru;
- manylion canran y contractwyr trydydd parti sy'n darparu gwasanethau yn unol â'r mesurau perthnasol a nodir yn y cynllun;
- manylion canran a nifer y staff sydd wedi cael hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg; ac yn
- esbonio a dalwyd sylw i gynllun achredu meddalwedd dwyieithog y Bwrdd wrth ddatblygu a chaffael systemau TG a meddalwedd newydd ar gyfer ei gwasanaethau yng Nghymru.
- manylion nifer y cwynion a gafwyd am ddiffyg darpariaeth yn yr iaith Gymraeg a'r camau a gymerwyd i ddatrys y cwynion hynny.

**6.7** Mae cynllun gweithredu manwl yr Ymddiriedolaeth Garbon yn nodi sut y bydd yn sicrhau ei bod yn gweithredu yn unol â'r Cynllun Iaith yn dod gyda'r cynllun hwn. Daw'r cynllun gweithredu i rym o'r dyddiad y bydd Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn cymeradwyo'r Cynllun Iaith.

**6.8** Ni fydd yr Ymddiriedolaeth Garbon yn newid y Cynllun Iaith hwn heb ymgynghori â Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn gyntaf.

**6.9** Caiff y Cynllun Iaith ei adolygu yn unol â phroses fonitro'r Ymddiriedolaeth Garbon ac mewn partneriaeth â Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar ôl cyfnod o bedair blynedd.

**6.10** Bydd yr Ymddiriedolaeth Garbon yn darparu manylion cysylltu (cyfeiriad e-bost a rhif ffôn) fel y gall unrhyw un sydd â chwyn ynglŷn

â'r ffordd y gweithredir y cynllun gysylltu â'r Ymddiriedolaeth Garbon. Mae'r Ymddiriedolaeth Garbon yn nodi hefyd y caiff Bwrdd yr Iaith Gymraeg ymchwilio, yn unol ag adran 17 o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993, os ymddengys i'r Bwrdd y gall fod diffyg yn y ffordd y caiff y cynllun ei gynnal.

## **7. Rhoi Sylw i'r Cynllun**

**7.1** Bydd yr Ymddiriedolaeth Garbon yn cyfeirio at y cynllun hwn yn yr Adolygiad Blynyddol a gyhoeddir ganddo, ac mewn taflenni gwybodaeth cyffredinol ar gyfer cwsmeriaid, a bydd yn pwysleisio wrth gwsmeriaid bod croeso i gwsmeriaid yr Ymddiriedolaeth Garbon ddefnyddio'r iaith Gymraeg wrth ddelio â'r cwmni a'i weithwyr wrth gael gwasanaethau o'r math a ddisgrifir ym mharagraff 2.2.2 yng Nghymru.

**7.2** Bydd yr Ymddiriedolaeth Garbon yn rhoi copïau o'r cynllun i gwsmeriaid os gofynnant amdanynt.

**7.3** Mae'r Ymddiriedolaeth Garbon yn croesawu awgrymiadau gan gwsmeriaid neu weithwyr ar gyfer gwelliannau i'r cynllun. Dylid cyfeirio unrhyw sylwadau am y cynllun hwn neu'r ffordd y caiff ei weithredu i Grŵp Llywio Materion y Gymraeg, d/o Y Rheolwr - Cymru, Yr Ymddiriedolaeth Garbon, Porth Tredomen, Parc Tredomen, Ystrad Mynach, CF82 7EH.